BookTrust Cymru

Amser Rhigwm Mawr Cymru

Big Welsh Rhyme Time

# Trysorau Bychan

gan Casia Wiliam

**I ffwrdd â fi ar antur**
**i ffeindio trysor hardd.**
**Oes trysor yn y goedwig?**
**Oes trysor yn yr ardd?**

**Edrych! Beth yw hwnna?**
**Rhywbeth mawr a chrwn.**
**Concer brown a chaled,**
**fy nhrysor i yw hwn!**

**Beth nesa? Aeron cochion,**
**yn fwyd i'r adar bach,**
**mor ddisglair ar y goeden...**
**i mewn â nhw i'r sach!**

**Casglu, casglu trysor!**
**Be arall sydd i'w hel?**
**O waw, am beth arbennig,**
**adain ysgafn, ddel.**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

#BwrlwmYRhigwmIBawb
#RhymingFunForEveryone


Rhif Elusen / Charity Number: 313343

BookTrust Cymru

**Amser Rhigwm Mawr Cymru**

Big Welsh Rhyme Time

# Trysorau Bychan

gan Casia Wiliam

**Dwi'n neidio ac yn sgipio,**
**wrth chwilio trwy y dydd,**
**am drysor…fel y garreg hon**
**sy'n swatio mewn lle cudd.**

**A ffon! Mae'n rhaid mi gael un!**
**Yr ora' fu erioed!**
**A dail i'w cario adref,**
**rhai coch ac aur o'r coed.**

**Trysor sydd ym mhobman!**
**Mor werthfawr yw i mi.**
**Dy dro di nawr i chwilio.**
**Ti'n barod? Ar ôl tri…**

Gwyliwch fideo ategol y rhigwm fan yma **www.booktrust.org.uk/bigwelshrhymetime**



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

#BwrlwmYRhigwmIBawb
#RhymingFunForEveryone



Rhif Elusen / Charity Number: 313343

BookTrust Cymru

**Amser Rhigwm Mawr Cymru**

Big Welsh Rhyme Time

## Trysorau Bychan

### Gweithgaredd/Cynllun Gwers

1) **Ewch ati i gael sgwrs gyda'r plant** am drysor. Be ydi trysor? Sut mae'n edrych?

2) **Darllenwch y gerdd** 'Trysorau Bychan' gan Casia Wiliam, neu gwyliwch y fideo!

3) **Gofynnwch** os oedden nhw'n hoffi'r gerdd. Beth oedden nhw'n hoffi amdani?

4) **Ewch ati i sgwrsio am drysor eto.** Be ydi trysor? Sut mae'n edrych? Beth maen nhw'n hoffi ei gasglu?

5) **Nawr mae'n amser mynd am antur!** Ble bynnag ydych chi, tu mewn neu tu allan, anfonwch bawb ar antur i chwilio am drysor! Cofiwch eu hatgoffa y gall trysor fod yn unrhyw beth sy'n arbennig iddyn nhw...ceiniog, carreg, mochyn coed, botwm, rhuban, tegan ayyb. Rhowch rhwng 5 a 10 munud iddynt. Efallai y byddwch am guddio ambell 'drysor' o flaen llaw!

6) **Dewch â phawb yn ôl at ei gilydd** ac annog pawb fesul un i ddangos eu trysor i'r grŵp. Meddyliwch gyda'ch gilydd am eiriau i ddisgrifio'r trysor. Ydi o'r grwn? Ydi o'n llyfn? Yn feddal? Yn galed? Yn lliwgar?

7) **Amser gweithgaredd!** Ar ôl disgrifio trysor pawb, byddwch angen papur a rhywbeth i wneud llun, cyn i bawb fwrw iddi i wneud llun o'u trysor arbennig nhw. Os yw'r plant yn gallu ysgrifennu, beth am eu hannog i ysgrifennu rhai o'r ansoddeiriau sy'n disgrifio eu trysor nhw wrth ymyl eu llun.

8) **Ar ôl gorffen**, dewch â phawb at ei gilydd eto ac annog pawb i ddangos eu gwaith i'r grŵp fesul un, a rhoi clap fawr i bawb am eu gwaith caled.

Gwyliwch fideo ategol y rhigwm fan yma **www.booktrust.org.uk/bigwelshrhymetime**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

#BwrlwmYRhigwmIBawb
#RhymingFunForEveryone



Rhif Elusen / Charity Number: 313343